



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

23 Chwefror 2021

Annwyl Llŷr,

Heddiw rwyf wedi gosod fersiwn wedi'i diweddarau o Femorandwm Esboniadol Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). Mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid yn yr adroddiad ar ddiwedd Cyfnod 1, mae'r diwygiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u hamlinellu isod.

Derbyn neu dderbyn yn rhannol argymhellion y Pwyllgor Cyllid:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn diffinio ac yn gwerthuso llwyddiant y Cwricwlwm newydd ac yn amlinellu hyn mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Mae Pennod 11 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i diweddarau i egluro sut y caiff diffiniadau a dangosyddion llwyddiant eu datblygu fel rhan o'r astudiaeth gwmpasu gwerthuso yn 2021. Mae rhai enghreifftiau, a gymerwyd o Gynllun Gweithredu'r Cwricwlwm, ac amserlen ddangosol hefyd wedi'u cynnwys.

Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith pellach i asesu'r costau i ysgolion ac yn ymgysylltu ag ysgolion heblaw Ysgolion Braenaru ynghylch y costau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dylai'r wybodaeth a gesglir gael ei chyflwyno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Ni fu modd gwneud gwaith pellach i amcangyfrif y costau oherwydd yr amharu a achoswyd gan bandemig COVID-19. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau gyda manylion ymchwil ac ymgysylltu ag ystod eang o ysgolion sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2021, gan gynnwys asesiad o barodrwydd a gwaith datblygu ar y cyd gydag ysgolion drwy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwydwaith Cenedlaethol. Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i ddiweddarau'r amcangyfrifon o'r costau, a fydd yn cael eu rhannu â'r Senedd yn ddiweddarach yn 2021.

Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i ddiffinio ac amcangyfrif y costau ar gyfer 'addysg heblaw yn yr ysgol' a chostau trefniadau asesu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Fel y nodwyd uchod, ni fu modd gwneud gwaith pellach i amcangyfrif y costau oherwydd yr amharu a achoswyd gan bandemig COVID-19. Yn y cyfamser, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau gyda manylion ymchwil ac ymgysylltu ag ystod eang o ysgolion a lleoliadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2021, gan gynnwys asesiad o barodrwydd a gwaith datblygu ar y cyd gydag ysgolion a lleoliadau drwy Rwydwaith Cenedlaethol. Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i ddiweddarau'r amcangyfrifon o'r costau, a fydd yn cael eu rhannu â'r Senedd yn ddiweddarach yn 2021.

Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r manylion am yr holl gostau suddedig sy'n ymwneud â'r Bil yn yr un rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Mae'r holl gostau suddedig wedi'u nodi yn yr un rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am ei thrafodaethau â rhanddeiliaid ynghylch y costau posibl i'r system addysg ôl-16 a chyhoeddi unrhyw fanylion am y goblygiadau ariannol.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau i gynnwys yr wybodaeth hon, sy'n adlewyrchu'r wybodaeth a nodwyd yn fy llythyr atoch ar 20 Tachwedd 2020 (sydd wedi'i atodi yn **Atodiad A** er gwybodaeth).

Bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ynghylch sut y bydd yn adolygu'r costau a ddarperir gan randdeiliaid (ac yn rhoi gwybod i'r Senedd am y costau hynny) a'r amserlenni gweithredu.

Yn dilyn fy llythyr atoch ar 20 Tachwedd 2020, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r adborth gan randdeiliaid yn yr adran ar gostau.

Hefyd, i chi fod yn ymwybodol, nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol y gost weinyddol i Lywodraeth Cymru dros y cyfnod arfarnu deng mlynedd (2021-22 i 2030-31), sef tua £175m. Rhwng 2021-22 a 2025-26, y gost y flwyddyn fydd £25m - £26m cyn gostwng i tua £10m y flwyddyn o 2026-27 ymlaen.


Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn cynnwys proffil diwygiedig o gostau Cymwysterau Cymru, a amcangyfrifwyd fel y cyngorwyd gan Gymwysterau Cymru oherwydd bod y gwariant/gweithgarwch yn y flwyddyn ariannol gyfredol yn is na'r disgwyl pan ysgrifennwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol. Canlyniad hyn yw bod mwy o gostau Cymwysterau Cymru wedi'u gwthio i gyfnod arfarnu 2021-22 i 2030-21. Mae'r £1.350m ar gyfer 2021-22 yn unol â'r cyllid a ddyrannwyd i Gymwysterau Cymru ar gyfer diwygio'r cwricwlwm.

Ceir gostyngiad yn y gost ychwanegol amcangyfrifedig ar gyfer darparu adnoddau Cymraeg/dwyieithog – cafodd amcangyfrif o £3.17m y flwyddyn ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol ond mae hyn wedi'i ddiwygio i lawr i £1m yn 2021-22 a £2m ym mhob un o'r blynyddoedd sy'n weddill yn y cyfnod arfarnu.

O ran y prif gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, effaith net y newidiadau hyn fu lleihau cost amcangyfrifedig y Bil. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig bellach yn nodi mai tua £163m fydd y gost weinyddol i Lywodraeth Cymru dros y cyfnod arfarnu deng mlynedd (2021-22 i 2030-31). Yn 2021-22, mae'r gost amcangyfrifedig wedi'i diwygio i £23.4m (£25.6m gynt), gan gynyddu i £24m rhwng 2022-23 a 2025-26 (£25-26m gynt), cyn gostwng i tua £9m y flwyddyn (£10m gynt) o 2026-27 ymlaen.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

20 Tachwedd 2020

Annwyl Llyr

Ceir isod ddiweddariad ar yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Cwricwlwm ac Aseu (Cymru), yn dilyn fy sesiwn dystiolaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 21 Medi a'm llythyr dyddiedig 5 Tachwedd at Lynne Neagle AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Ym mis Gorffennaf, gwahoddwyd nifer o randdeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ychwanegol i Lywodraeth Cymru er mwyn llywio'r costau a nodwyd yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol. Roedd y rhain yn cynnwys CLILC, Cymdeithas Cyfarwyddwr Addysg Cymru, Consortia Rhanbarthol, darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon, Estyn, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, Cymdeithas CYSAGau Cymru, yr Eglwys yng Nghymru, a Colegau Cymru.

Dywedodd Cymdeithas CYSAGau Cymru na fydd costau ychwanegol yn ymwneud â'u sefydliad nhw, ac mae Estyn wedi dweud y byddant yn talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd o'u dyraniad cyllid craidd.

Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr o'r sector addysg bellach (AB) ym mis Awst 2020 a rannodd safbwyntiau ar yr effaith bosibl ar y system addysg ôl-16. Gellir grwpio'r rhain fel a ganlyn:

- goblygiadau ariannol i ddysgu a datblygu proffesiynol yn y sector ôl-16;
- yr angen posibl am oriau addysgu ychwanegol mewn rhai pynciau os na cheir meysydd penodol o wybodaeth o'r cwricwlwm gorfodol newydd;
- yr angen i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu sgiliau Cymraeg yn y sector AB. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen cwblhau gweithgareddau pontio ymhellach er mwyn sicrhau y caiff dysgwyr eu paratoi'n effeithiol i ddilyn cyrsiau ôl-16 ar gyfer pynciau penodol.

Mae Colegau Cymru yn cydnabod nad yw'r materion hyn o reidrwydd yn rhan o gwmpas ariannol y Bil sy'n canolbwyntio ar y cwricwlwm gorfodol, ond maent o'r farn y bydd angen

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ystyried y costau hyn er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn llwyddo i gyflawni ei nodau.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio â Colegau Cymru i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer y grŵp cyntaf o ddysgwyr yn 2027, gan fwydo i'r Cynllun Gweithredu Dysgu Proffesiynol a'r Fframwaith Dysgu Proffesiynol ar gyfer staff yn y sector ôl-16 fel y bo'n briodol. Bydd y goblygiadau ariannol yn cael eu bodloni o'r cyllidebau a neilltuwyd i gyflwyno'r cwricwlwm newydd, gan adeiladu ar y cyllid gwerth £124,000 a ddyrannwyd ar gyfer AB rhwng 2018-19 a 2020-21 i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Mae'r gwariant hwn wedi'i gynnwys yn y llinellau 'Prosiect Diwygio'r Cwricwlwm' yn nhablau 2 a 3 (tudalennau 78 a 79) yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.


Fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 5 Tachwedd, mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi costau posibl i gyrff dyfarnu a fydd yn deillio o newid cymwysterau, a sut y gallai'r rhain effeithio ar ganolfannau arholi. Mae'r sefyllfa bresennol o ran arholiadau a achoswyd gan y pandemig yn golygu bod yr ymarfer hwn yn parhau'n heriol iawn. Mae Cymwysterau Cymru'n bwriadu cynnal ymgynghoriad pellach ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd yn y Flwyddyn Newydd yn 2021. Wrth i'w gwaith ar y cymwysterau fynd rhagddo, bydd y cynigion yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân a chaiff unrhyw gostau i gyrff dyfarnu, ysgolion a rhannau eraill o'r sector sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau newydd eu hystyried yn fanwl a'u cyhoeddi ar yr adeg briodol.

Rydym wedi cytuno ar gyllid i'r Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, a hynny o'r cyllidebau presennol, i'w galluogi i ddatblygu canllawiau i gefnogi'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Bydd y canllawiau hyn hefyd yn helpu ysgolion i ddatblygu cwricwlwm sy'n bodloni gofynion ehangach y fframwaith ynghyd â bodloni eu gofynion fel ysgolion â chymeriad crefyddol. Mae'r Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn honni y byddai'r gofynion iddynt gyflwyno Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y maes llafur cytunedig ac Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol yn golygu costau ac adnoddau ychwanegol i'w hysgolion. Mae gwaith ar y mater hwn yn parhau er mwyn sicrhau bod y gofynion i ysgolion â chymeriad crefyddol gyflwyno pob un o'r ddau faes llafur gofynnol yn briodol. Caiff unrhyw gostau ariannol eu talu o gyllidebau sydd wedi'u neilltuo i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Rwy'n gobeithio bod yr ateb hwn yn rhoi gwybodaeth ddigonol am ein cynnydd mewn perthynas â goblygiadau ariannol Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) i randdeiliaid allweddol. Caiff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddiweddarau cyn Cyfnod 3 i gynnwys yr wybodaeth ychwanegol angenrheidiol.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'm swyddfa i drefnu sgwrs bellach.

Yn gywir



Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education